



Adroddiad y
Llywodraethwyr
Governors' Report
2022-23

Rhagair

Mae'n bleser cyflwyno'r adroddiad hwn ar ran corff llywodraethol Ysgol Pant Pastynog. Dyma ysgol unigryw yng nghefn gwlad Sir Ddinbych ac mae'r disgyblion yn cael eu meithrin a'u haddysgu mewn modd ysgogol a chadarnhaol, a'r profiadau a gynigir yn eang a chyfoethog.

Bu'n flwyddyn brysur gynhyrchiol eto eleni, ac mae ein diolch yn fawr i'r tîm staff am eu hymroddiad, eu brwdfrydedd a'u gofal – diolch o waelod calon i bob un ohonynt am eu gwaith diflino. Heb os, maent yn dîm arbennig o staff.

Diolch hefyd i'r gymuned gyfan am eu cefnogaeth ac i'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon am eu cyfraniadau ariannol hael ar adeg sy'n heriol o ran cyllid ysgolion. Mor braf eleni oedd gweld y ffair ysgol a'r barbeciw yn llwyddiant ysgubol, a haelioni'r gymuned yn amlwg yn y ddau ddigwyddiad. Diolch i chi fel rhieni am eich cefnogaeth gyson i'r ysgol.

Hyderwn y caiff yr ysgol barhau i ddatblygu o nerth i nerth yn y flwyddyn sydd i ddod. Ymlaen â ni!

Yn ddiffuant,

Meryl Pierce (Cadeirydd)
ar ran Llywodraethwyr Ysgol Pant Pastynog.

Foreword

It is a pleasure to present this report on behalf of the governing body of Ysgol Pant Pastynog. This is a unique school in the Denbighshire countryside and the pupils are nurtured and taught in a stimulating and positive way, and the experiences offered by the staff at the school are broad and rich.

It has been a busy, productive year again and we are very grateful to the team of staff for their dedication, enthusiasm and care - thank you to all of them for their tireless work. They are undoubtedly a special team of staff.

Thanks also to the whole community for their support and to the Parents and Teachers Association for their generous financial contributions at a time that is challenging in terms of school funding.

It was so nice this year to see the school fair and the Summer barbecue being a huge success, and the generosity of the community evident in both events. Thank you as parents for your constant support of the school.

We trust that the school will continue to develop from strength to strength in the coming year. Onwards and upwards!

Yours sincerely,

*Meryl Pierce, (Chairperson)
on behalf of the School Governors*

Staff yr Ysgol – School Staff

Pennaeth – *Head teacher:* Mr Meirion Edwards

Gyda gofal dosbarth BI5 a 6 / *with Yr 5 & 6 class responsibility*

Athrawon Cyfnod Allweddol 2 / Key Stage 2 Teachers

Athrawes BI 5 a 6 / Yr 5 and 6 teacher Mrs Mali Williams

Athrawes BI 3 a 4 / Yr 3 & 4 teacher Mrs Teleri Roberts

Athrawes gyflenwol / *Supply Teacher* Miss Ela Jones

Athrawon y Cyfnod Sylfaen Miss Lois Lightfoot

Foundation Stage Teachers: Mrs Helen Davies

Cynorthwywyr Dysgu: Miss Margaret Williams

Teaching assistants: Ms Elin Jones

Mrs Siân V. Jones

Miss Glenda Jones

Miss Celi Evans

Staff Cynorthwyol – Auxiliary staff:

Ysgrifenyddes – *Secretary:* Mrs Gwenan Roberts

Cogydd – *Cook:* Mrs Gwenan Roberts

Gofalwr – *Caretaker:* Mr Dei Jones

Cynorthwywyr Ganol dydd Miss Margaret Williams a Miss Elin Jones

Midday Supervisors

Clwb Brecwast – Breakfast Club Mr Dei Jones

Miss Elin Jones

Y Corff Llywodraethol – The Governing Body

Cadeirydd/ <i>Chairperson</i> :	Mrs Meryl Pierce
Is-gadeirydd/ <i>Vice Chairperson</i> :	Mrs Iona Jones
Clerc/ <i>Clerk</i> :	Mrs Gwenan Roberts
Llywodraethwyr AALL: <i>LEA Governors</i> :	Mrs Meryl Pierce Mrs Iona Jones
Llywodraethwyr Cymunedol: <i>Community Governors</i> :	Mrs Ceri Davies hyd at Mehefin yna Mr Ian Evans Mr Robert Davies
Rhiant Lywodraethwyr: <i>Parent Governors</i> :	Mrs Dona Jones <i>Mr Huw Davies</i> Mrs Llinos Anderson
Llywodraethwyr Sylfaen: <i>Foundation Governors</i> :	Parchedig Martin Pritchard Mr Philip Williams
Athrawon/ <i>Teachers</i> :	Mr Meirion Edwards / Mrs Mali Williams
Staff / Staff	Mrs Siân Jones
Gellir cysylltu â'r Cadeirydd a'r Clerc yn: <i>The Chair and Clerk can be contacted at:</i>	Mrs Gwenan Roberts, Ysgol Pant Pastynog, Prion, Dinbych, LL16 4SA - 01745 890331

Costau a threuliau'r Corff Llywodraethol – The Governors' cost and expenses

Yn unol â Pholisi Lwfansau Llywodraethwyr yr ysgol, ni thalwyd unrhyw gostau i'r Llywodraethwyr yn ystod y flwyddyn.

In line with the school Governors' Allowances Policy, there weren't any costs paid to any Governors during the year.

Roedd y cyfarfodydd canlynol wedi cymryd lle dros y flwyddyn.

The following meetings were held during the year:

Cyfarfodydd 2022-23 Meetings	Tymor yr Hydref Autumn Term 2022	Tymor y Gwanwyn Spring Term 2023	Tymor Yr Haf Summer Term 2023
Llywodraethwyr Llawn <i>Full Governors Meeting</i>	12.10.2022 14.12.2022	29.3.2023	14.6.2023 5.7.2023
Is-bwyllgor Cwricwlwm <i>Curriculum Sub- Committee</i>	7.12.2022	8.3.2023	21.6.2023
Is-bwyllgor Cyllid ac Adnoddau <i>Finance and Assets Sub-committee</i>	12.10.2022 14.12.2022	29.3.2023	14.6.2023 5.7.2023
Is-bwyllgor Iechyd a Diogelwch <i>Health and Safety Sub-committee</i>	16.11.2022	8.2.2023	10.5.2023

Cyfarfodydd Llywodraethwyr – Governors' Meetings

Ni chynhelir cyfarfod i rieni yn ystod y flwyddyn.

No meeting for parents was held during the year.

Bydd y materion a nodir isod ar agenda pob cyfarfod:

In every meeting, the matters noted below are on the agenda:

Diogelu - *Safeguarding*

Cynllun Datblygu Ysgol – *School Development Plan*

Materion ariannol – *Financial matters*

Materion staffio – *Staffing matters*

Materion Iechyd a Diogelwch – *Health and Safety matters*

Hyfforddiant Llywodraethwyr – *Governors' training*

Materion Sirol a Rhanbarthol – *County and Regional Matters*

Diweddaru a Chytuno Polisiau—*Update and Adopt policies*

Canlyniadau – Results

Does bellach ddim lefelau na deilliannau i'w gyflwyno i'r Llywodraethwyr ar ddiwedd Cyfnod Sylfaen / Cyfnod Allweddol 2. Bellach rydym yn cyflwyno canlyniadau 'Asesiadau Personol' y plant o flwyddyn 2 i 6 i'r Llywodraethwyr yng nghyfarfod olaf Mis Gorffennaf. Cytunwyd wedi dadansoddi'r data mai un o flaenoriaethau'r ysgol ar gyfer 2023-24, fyddai targedu Mathemateg a Rhifedd.

There are no longer any levels or outcomes to be presented to the Governors at the end of Foundation Phase / Key Phase 2. We now present the results of the children's 'Personal Assessments' from year 2 to 6 to the Governors at the last meeting in July. It was agreed after analysing the data, that one of the school's priorities for 2023-24, would be to target Mathematics and Numeracy.

Blaenoriaethau 2022-23 Priorities

Gweler isod Blaenoriaethau'r Ysgol ar gyfer 2022-23.

See below the School's Priorities for 2022-23.

1. Parhau i ddatblygu ein Cwricwlwm newydd gan sicrhau profiadau amrywiol gyda phwyslais ar y 4 diben, 6 maes dysgu a phrofiad, 12 egwyddor addysgeg a'r datganiadau o'r hyn sydd yn bwysig.
Continue to develop our new Curriculum ensuring diverse experiences with an emphasis on the 4 purposes, 6 areas of learning and experience, 12 pedagogical principles and the what matters statements.
2. Gwreiddio a chysoni newidiadau yn system ADY. Bydd y CADY yn mireinio systemau ADY yr ysgol i gyd-fynd gyda'r cod Newydd. Gosod camau fydd yn helpu'r staff i wybod beth i'w wneud i gefnogi plant ADY.
Embedding and harmonizing changes in the ALN system. The ALNCo will refine the school's ALN systems to match the New ALN code. Set steps that will help the staff know what to do to support ALN children.
3. Gweithredu ôl-gynllun Adran 50 yr Eglwys, a pharhau i ddatblygu cyswllt a chydweithio gydag ysgolion Eglwysig eraill.
Implement the Church's Section 50 post-plan, and continue to develop contact and collaboration with other Church schools.
4. Cynnal a chodi safonau llafar Cymraeg y plant drwy'r ysgol.
Maintain and raise the children's Welsh oral skills throughout the school.
5. Parhau i ddatblygu lles Disgyblion a Staff. Annog staff i adnabod a chymryd cyfrifoldeb dros les eu hunain. Staff a phlant yn cael cyfleoedd a phrofiadau fydd yn hybu lles dros y flwyddyn o dan

arweiniad ein Llysgenhadon Chwaraeon a Chyngor Ysgol.

Continue to develop the welfare of Pupils and Staff. Encourage staff to recognize and take responsibility for their own well-being. Staff and children have opportunities and experiences that will promote well-being over the year under the guidance of our Sports Ambassadors and School Council.

Cyllid yr Ysgol – School Budget 2022-23

Mae'r Corff Llywodraethol yn cydweithio'n agos efo Swyddog Cyllid Clwstwr Ysgol Glan Clwyd, wrth drin cyllid yr ysgol. Bydd y Llywodraethwyr yn blaenoriaethu'n addas wrth wario ar staffio ac adnoddau fel bod y ddarpariaeth a gynigwn yn hybu safonau uchel ac addysg o'r radd flaenaf i'r plant.

The Governing Body works in collaboration with The Glan Clwyd Cluster Finance Officer, when dealing with the school budget. The Governors agree on the priorities regarding staffing and resources so that the provision that we offer promotes high standards and education of the highest rank for the children.

Ysgol Pant Pastynog Adroddiad Cyllideb / Budget Report 2022-23

CYNGOR SIR DDINBYCH - DATGANIAD BLYNYDDOL CYFRIF ARIANNOL			
YSGOL PANT PASTYNOG			26/07/2023
CYLLIDEB YSGOL DIRPRWYEDIG			2022/2023
CATEGORI	CYLLIDEB FLYNYDDOL	CYFANSWM GWARIANT	DANWARIANT/ (GORWARIANT)
GWEDDILL WEDI'I DDWYN YMLAEN	(79,306)	(79,306)	0
CYFLOGAU STAFF	357,196	381,099	(23,903)
ADEILADAU	31,172	20,655	10,517
CLUDIANT	0	300	(300)
CYFLENWADAU AC YSWIRIANT	29,188	28,782	406
GWASNAETHAU A CHYTUNDEBAU	28,945	30,219	(1,275)
INCWM	(35,211)	(58,601)	23,390
WRTH GEFN	37,710	0	37,710
CYFANSWM YSGOL	369,694	323,148	46,546

DENBIGHSHIRE COUNTY COUNCIL - ANNUAL STATEMENT OF FINANCIAL ACCOUNT			
YSGOL PANT PASTYNOG			26/07/2023
DELEGATED SCHOOL BUDGET			2022/2023
CATEGORY	ANNUAL BUDGET	TOTAL EXPENDITURE	UNDERSPEND/ (OVERSPEND)
BALANCE B/FWD	(79,306)	(79,306)	0
EMPLOYEES	357,196	381,099	(23,903)
PREMISES	31,172	20,655	10,517
TRAVELLING EXPENSES	0	300	(300)
SUPPLIES & INSURANCE	29,188	28,782	406
SERVICES AND CONTRACTS	28,945	30,219	(1,275)
INCOME	(35,211)	(58,601)	23,390
CONTINGENCY	37,710	0	37,710
SCHOOL TOTAL	369,694	323,148	46,546

Derbyniwyd y rhoddion canlynol yn ystod 2022-23:

The following donations were received during 2022-23:

Grantiau – Grants

Cyngor Cymuned Llanrhaeadr Community Council (tuag at gostau ffens newydd o amgylch Caban y Plwyf)	£ 500.00
Cronfa Melin Wynt Clocaenog / Clocaenog Forest Wind farm fund (tuag at gost trip Bl 3 i 6 i Bentre' Peryglon / towards Yr 3-6 trip to Dangerpoint)	£ 1000.00
Ymddiriedolaeth Gymunedol Fferm Wynt Tir Mostyn a Moel Goch (tuag at gostau bws tripiâu Cyfnod Sylfaen a CA2)	£ 1000.00
Melinau Gwynt Nantglyn/ Nantglyn Wind Farm Trust (at gostau gwersi Gymnasteg Medi 2023 / funding towards Gymnastics lessons Sep 2023)	£ 1620.00
Grant Crefydd gan y Gadeirlan (£500 yr un, tuag at gydweithio ar Brosiect Crefyddol gyda tair ysgol arall)	£ 2000.00
Cyngor Sir Dinbych - Grant Cynhyrchu Bwyd / Food Production Grant) (archebu adnoddau a datblygu gardd yr ysgol / funding towards developing our School garden)	£ 2500.00

Cyfraniadau Eraill a Dderbynwyd—Other Contributions Received

Teulu Melin Gwynt Hafodty Ddu family	£ 3,000.00
Rhodd gan / Donation from Mrs Eira Jones	£ 100.00
Rhodd er cof Mrs Falmai Evans / Donation in memory of Mrs Falmai Evans	£ 200.00
Rhodd gan / Donation from - teulu Rob Davies (noddi cit pêl droed)	£ 102.83
Rhodd gan / Donation from - teulu Daniel Morris (noddi cit pêl droed)	£ 102.83
Gweithgareddau Pasg / Easter Activities led by Charlie Davies (tuag at cit pêl droed)	£ 218.00
Rhodd gan Margaret Williams a'i ffrindiau / Donation by Margaret Williams & friends	£ 30.00

Cefnogi elusenu – Supporting Charities

Codwyd yr arian canlynol at waith elusennol / *The following sums of money were raised for charity:*

Codi arian i Gofal Dydd y Waen / Gofal Dydd y Waen Day Centre	£ 172.64
Diwrnod y Rhif NSPCC / NSPCC Numbers Day	£ 61.30
Plant Mewn Angen / Children in Need	£ 340.00
Cymorth Cristnogol / Christian Aid	£ 24.26
Banc Bwyd Dinbych / Denbigh Food Bank	£ 200.00

Casglwyd arian tuag at Gofal Dydd y Waen ym mis Hydref 2022 yn dilyn ein Gwasanaeth Diolchgarwch, ac yna casglwyd arian a rhoddion bwyd tuag at Fanc Bwyd Dinbych yn ein Gwasanaeth Nadolig ym mis Rhagfyr 2022.

Money was collected towards Gofal Dydd y Waen in October 2022 following our Thanksgiving Service, and then money and food donations were collected towards Denbigh Food Bank at our Christmas Service in December 2022.

Cwricwlwm yr ysgol / School curriculum

Credwn ei bod yn cynnig addysg o ansawdd uchel i blant Ysgol Pant Pastynog. Rhoddir pwyslais ar gynnig profiadau a chyfleoedd sy'n magu cymhelliant y plant ar gyfer dysgu, er mwyn iddynt gyflawni'r 4 diben -

- Ddysgwyr uchelgeisiol a galluog,
- Dysgwyr mentrus a chreadigol,
- Dinasyddion egwyddorol a gwybodus
- Dysgwyr iach a hyderus.

Rydym bellach, yn cynllunio drwy roi cydbwysedd ar ddysgu'r 6 Maes Dysgu a Phrofiad sef:

1. **Celfyddydau Mynegiannol** - Celf, Dawns, Ffilm, Drama, Cerddoriaeth a Chyfyngau Digidol
2. **Iechyd a Llesiant** - Dysgu am gael corff a meddwl iach, deall perthnasoedd iach a sut i wneud penderfyniadau bywyd da.

3. **Dyniaethau** - Dysgu am hanes, daearyddiaeth a chrefyddau. A hefyd busnes, gwleidyddiaeth

4. **Ieithoedd, Llythrennedd a chyfathrebu** - Dysgu a deall sut i gyfathrebu mewn gwahanol ieithoedd (llafar, darllen ac ysgrifennu.)

5. **Mathemateg a Rhifedd** - Dysgu sgiliau rhif, trin data, siâp a chyfrifo.

6. **Gwyddoniaeth a Thechnoleg** - Deall natur a phethau byw, sut mae pethau yn gweithio, dylunio ac adeiladu pethau.

Ynghlwm i'r hyn a ddysgir drwy'r Meysydd Dysgu mae'r plant hefyd yn dysgu sgiliau llythrennedd, rhif a digidol yn drawsgricwlaidd.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r disgyblion yn parhau i gael gwersi Cymraeg a Mathemateg bob bore ac yna bob prynhawn rhown gyfleoedd i'r plant ddysgu drwy chwarae yn y gwahanol ardaloedd dysgu: ardal iaith, ymchwiliol, rhif, adeiladu, byd bach, yr ardal dawel, sain, dwylo prysur, graffeg, TGCh, rhyngweithiol, iach a thu allan.

We believe that we offer high quality education to the children of Ysgol Pant Pastynog. Emphasis is placed on offering experiences and opportunities that increase the children's motivation for learning, so that they achieve the 4 purposes -

- *Ambitious, capable learners*
- *Enterprising, creative contributors*
- *Ethical, informed citizens*
- *Healthy, confident individuals*

We now plan by giving a balance approach when teaching the 6 Areas of Learning and Experience namely:

1. **Expressive Arts** - Art, Dance, Film, Drama, Music and Digital Media

2. **Health and Wellbeing** - Learning about having a healthy body and mind, understanding healthy relationships and how to make good life decisions.

3. **Humanities** - Learning about history, geography and religions. And also business, politics

4. **Languages, Literacy and communication** - Learning to communicate (speaking, writing and understanding different languages).

5. **Mathematics and Numeracy** - Learning number skills, data manipulation, shape and calculation.

6. **Science and Technology** - Understanding nature and living things, how things work, designing and building things.

In addition to what is taught through the 6 Areas of Learning, the children have also been learning literacy, number and digital skills cross-curricular.

In the Foundation Stage, the children have Welsh and Maths lessons each morning and every afternoon we give them opportunities to learn through play in the various learning areas: language, investigative, number, building, small world, quiet area, sound, busy hands, graphic, ICT, interactive, healthy and outside.

Llawlyfr yr Ysgol / School Prospectus

Rydym wedi adolygu a diwygio llawlyfr yr ysgol yn unol â gofynion statudol. Mae copi ar gael yn yr ysgol neu i'w weld ar wefan newydd yr ysgol <http://www.ysgolpantpastynog.cymru/>.

The school prospectus has been revised in accordance with the legislative requirements. A copy of the prospectus is available at school or can be seen on the school's new website

<http://www.ysgolpantpastynog.cymru/>.

Gwaharddiadau / Exclusions

Ni waharddwyd unrhyw ddisgybl yn ystod y flwyddyn 2022-23.

No pupils were excluded in the year 2022-23.

Presenoldeb / Attendance

Mae presenoldeb yn dda iawn yn Ysgol Pant Pastynog. Pan fo plentyn yn absennol, disgwylir i rieni gysylltu â'r ysgol mor fuan ag sy'n bosibl a cyn **8.45yb**, i egluro'r absenoldeb - un ai drwy ffonio'r ysgol neu drwy anfon e-bost.

*Attendance is very good in Ysgol Pant Pastynog. When a child is absent, we expect parents to contact the school as soon as possible before **8.45am** – either by phone or by emailing the school.*

Targed Presenoldeb 2022-23 Attendance Target - **96%**

- **Tymor yr Hydref / Autumn Term** – 95.21%
- **Tymor y Gwanwyn / Spring Term** – 96.59%
- **Tymor yr Haf** (hyd at ddiwedd Mehefin) / **Summer Term** (to the end of June) – 95.1%

Targed blwyddyn nesaf fydd (2023-2024) **96%.** Rydym yn mawr obeithio y cawn gefnogaeth rhieni eto i gyrraedd y targed hwn.

Next year's target will be (2023-2024) **96%.** We really hope that we will have the support of parents again to reach this target.

Addysg Bersonol a Chymdeithasol / Personal and Social Education

Mae ABCh yn helpu plant i ddatblygu'n bobl gyfrifol a hunan hyderus ac mae agweddau o ABCh yn gwau drwy holl bynciau'r cwricwlwm drwy'r ysgol. Anogwn ein plant i chwarae rôl positif wrth gyfrannu at fywyd yr ysgol a'r gymdeithas ehangach. Rhoddir cyfle i'r plant rhannu eu barn o fewn y sesiynau Amser Cylch yn y dosbarthiadau.

PSE helps the children to develop into confident and responsible individuals and aspects of PSE interweave through all subjects throughout the school. We encourage children to play a positive role by contributing to the life of the school and to that of the wider world. The children are given an opportunity to share their opinion, in the Circle Time within the classes.

Cyngor Ysgol - School Council

Llwyddodd y Cyngor Ysgol i drefnu i godi arian ar gyfer Diwrnod Plant Mewn Angen a Diwrnod NSPCC Cymru. Yn ogystal bu iddynt benderfynu ar gasglu arian i Ofal dydd y Waen ac arian a bwyd ar gyfer Banc Bwyd Dinbych yn dilyn gwasanaethau'r ysgol. Maent hefyd wedi bod yn rhan allweddol wrth gynllunio ardaloedd gwahanol i'r plant gael chwarae ar y buarth.

The School Council managed to organize a fundraiser for Children in Need Day and NSPCC Wales Day. In addition, they decided to collect money for Gofal dydd y Waen centre and funds and food for the Denbigh Food Bank following the school services. They have also been a key part in planning different areas for the children to play on the yard.

Chwaraeon / Sport

Rhoddwyd cyfleoedd i blant yr ysgol gymryd rhan mewn gwersi Chwaraeon amrywiol eleni megis pêl-droed, rygbi, tenis, hoci, dawns, rownderi, gymnasteg, pêl osgoi, a phêl rwyd. Rhoddwn bwyslais ar gymryd rhan, ond anelwn hefyd at gyrraedd safonau uchel mewn perfformiadau unigol a gwaith tîm.

Cynhaliwyd Clwb Hwyl ar yntau nos Fawrth neu nos Iau bron drwy gydol y flwyddyn, ar gyfer plant o Flwyddyn 2 i 6.

Our pupils were given opportunities to take part in various Sports lessons this year such as football, rugby, tennis, hockey, dance, rounders, gymnastics, dodgeball and netball. We encourage everyone to take part, but we also aim to achieve high standards of performance as individuals and in team work.

Our Fun Club was held on either Tuesday or Thursday nights almost throughout the year, for children from Year 2 to 6.

Cymerodd yr ysgol rhan yn y cystadlaethau canlynol yn ystod 2022-23 /

The school took part in the following tournaments during 2022-23.

Cystadleuaeth Rygbi Tag a thaclo / Rugby Tag and Tackle competition

Pêl-droed yr Urdd timau Bechgyn a Merched / *Urdd Football Boys and Girls teams*

Pêl-rwyd yr Urdd Merched / *Girls Netball*

Cystadleuaeth Hoci Gogledd Cymru / *Mixed Hockey Team*

Cystadleuaeth Athletau dan do Sir Ddinbych / *Denbighshire In door Athletics Competition*

Ras Trawsgwlad Sir Ddinbych / *Denbighshire Cross Country race*

Cystadleuaeth Criced Sir Ddinbych / *Mixed Cricket Competition*

Cystadleuaeth Rownderi Sir Ddinbych / *Mixed Rounders Competition*

Gêm Bêl droed Gyfeillgar / *Friendly Football match*

Bu i blant Bl 5 a 6 cael gêm bêl droed gyfeillgar gydag Ysgol Bro Cinmeirch gan chwarae yn ysgol Bro Cinmeirch ac yn Ysgol Pant Pastynog.

Year 5 and 6 children had a friendly football match with Ysgol Bro Cinmeirch playing at Ysgol Bro Cinmeirch

and at Ysgol Pant Pastynog.

Nofio / Swimming

Cafodd plant o Flwyddyn 1 i 6 wersi nofio drwy'r Ysgol eleni.

Pupils from Year 1 to 6 had swimming lessons arranged by the School this year.

Beicio / Biking

Cafodd plant Blwyddyn 6 gyfle i gael hyfforddiant beicio Lefel 1 a 2.

Year 6 children had the opportunity to have Level 1 and 2 cycling training.

Mabolgampau – Sports day

Cafodd yr ysgol ddiwrnod Mabolgampau Dydd Iau 15fed o Fehefin, a bu i blant CA2 cael Mabolgampau Maes y bore hwnnw. Roedd yn braf cael gwahodd rhieni a theuluoedd i fod yn rhan o'r diwrnod ar gae'r Ysgol.

We had Sports Day on Thursday 15th June, and KS2 children had Field Sports that morning. It was nice to invite parents and families to be part of the day on the School field.

Gweithgareddau – Cofiwch ddilyn ni ar trydar **@pantpastynog** i weld lluniau sy'n cael eu hychwanegu'n ddyddiol, neu gallwch ymweld â'n gwefan <https://www.ysgolpantpastynog.cymru>

Dyma rhai o'r gweithgareddau sydd wedi cymryd lle dros y flwyddyn:

- PC Llinos wedi dod draw i roi sgwrs i blant yr ysgol yn dymhorol.
- Ymweliadau Meithrin a Derbyn - Emyr Evans/Llyfrgell Dinbych, Sioe Nadolig Cyw, Fferm Bodafon, taith i Gwaenynog i ddysgu am Beatrix Potter, taith i Tan Waen i weld Dot y ci defaid ac i weld Jac a'i foch. Gwylio ffilm yn Theatr Twm o'r Nant a thaith diwedd flwyddyn i Blue Planet Aquarium.
- Ymweliadau Bl 1 a 2 – Ffynnon Dyfnog, Fferm Bodafon, gweld dangosiad o bennod arbennig o'r rhaglen Deian a Loli a ffilm yn Theatr Twm o'r Nant. Bod yn rhan o Jambori Martin Geraint yn Ysgol Bryn Hyfryd a thaith diwedd flwyddyn i Blue Planet Aquarium.
- Ymweliadau CA2 - Ymweld â thref Dinbych, Castell Dinbych a Llyfrgell Dinbych, gweld Pantomeim Robin Hood Theatr Clwyd. Gwylio Sioe Mabinogi gan gwmni drama Mewn Cymeriad yng Nghastell Dinbych. Ymweld â Chanolfan ymwelwyr Brenig a gwaith gorsaf trin dŵr yr Alwen. Ymweliad i Bentre' Peryglon, pwysigrwydd diogelwch personol.
- Hyfforddiant beiciau cydbwysedd dosbarth Meithrin, Derbyn a Blwyddyn 1 gan Aled a Ffion o Gymunedau Bywiog.
- Hyfforddiant beicio i blant Blwyddyn 6 Lefel 1 a 2 gan Aled a Ffion o Gymunedau Bywiog.
- Hyfforddiant Criced i blant blwyddyn Derbyn i 6 gyda Sam Painter o Griced Gogledd Cymru.
- Hyfforddiant Gymnasteg i blant blwyddyn 1 i 6 gyda Tamsin Jones o Glwb Gymnasteg Dinbych a Ruthun.
- Daeth cymydog Chris Kameen i mewn i'r ysgol i gyd-weithio gyda phlant o bob oedran i ddatblygu eu sgiliau garddio.
- Gwasanaethau misol wedi eu harwain gan Barchedig Martin Pritchard ac Andras Iago a gwasanaeth tymhorol gan Mr Neil Roberts, ein Hymwelydd Esgob.
- Criw 'Agor y Llyfr' wedi ail gychwyn ac yn rhoi cyfle i blant yr ysgol cymryd rhan drwy berfformio

straeon o'r Beibl i weddill blant yr ysgol.

- Gwasanaeth a gweithdy Cymorth Cyntaf gan St John's Ambulance i blant CA2 a BI 1 a 2.
- Casi Wyn Bardd Plant Cymru wedi dod draw i gyfansoddi Cerdd Ein Bro gyda plant CA2.
- Leah Owen wedi dod mewn i weld BI 3 a 4, rhan o thema Ein Bro.
- Nifer o blant o Flwyddyn 4, 5 a 6 wedi cystadlu yng Nghystadleuaeth COGURDD yr Urdd.
- Llio o'r Urdd dod i wneud Sesiynau Chwaraeon gyda dosbarth Meithrin a Derbyn, BI 1 a 2, a BI 3 a 4.
- Catrin o Dŵr Cymru wedi dod draw i gynnal gwasanaeth Ysgol a gweithdy gyda plant CA2.
- Gwasanaeth Diolchgarwch yn Eglwys Dyfnog Sant, Llanrhaeadr a chynnal Cyngerdd Nadolig yn yr ysgol gyda rhieni yn bresenol, tro cyntaf ers y pandemig.
- Plant yr ysgol yn cymryd rhan yn Jambori yr Urdd - rhan o'r 'Wal Goch' i gefnogi tîm pêl droed Cymru.
- Cynnal bore coffi i'r gymuned a phlant BI 5 a 6 yn cynnal gweithgareddau i blant llai'r ysgol. Llwyddo i godi £340 ar gyfer elusen Plant Mewn Angen.
- Miri Mes - Casglu Mes yn ffarm John Tan Waen. Pwyllgor Eco yn creu fideo o'r digwyddiad ac ennill gwobr 'Y fesen ddigidol'. £150 i'r ysgol a chasglu 42kg o fes oedd werth £172.
- Llysgenhadon Chwaraeon a Ffion o Gymunedau Bywiog wedi trefnu cystadleuaeth pêl droed Cwpan y Byd Ysgol Pant Pastynog I blant CA2.
- Gwasanaethau yn cael ei arwain gan blant o wahanol bwyllgorau'r ysgol dros y flwyddyn.
- Gwasanaeth Iechyd a Lles gan Matt Reid o Glwb Rygbi North Wales Crusaders.
- Cystadleuaeth Cwis Dim Clem gan Fenter Iaith Sir Ddinbych, i blant Blwyddyn 6.
- Cwmni Xplore yn cynnig Stardome a gweithgaredd Gofod i blant o Flwyddyn 1 i 6.
- Cystadleuaeth Mathemateg TTRockstars (Tablau) oddi fewn yr ysgol i blant BI 5 a 6
- BI 5 a 6 wedi cael tridiau yng Ngwersyll yr Urdd Llangrannog.
- BI 3 a 4 wedi cael deuddydd a noson yng Ngwersyll yr Urdd Glanllyn.
- Gweithdy gwyddonol gan gwmni Technocamps Lego Robotics i blant BI 1 i 6
- Dathlu Dydd Miwsig Cymru – Aelodau Siarter Iaith wedi trefnu i fenthyl Clustffonau gan Urdd Sir Ddinbych er mwyn cynnal Disgo Tawel yn y neuadd.
- Jane Jones Swyddog Maeth y Sir wedi dod draw i gynnal gweithgareddau bwyta'n iach gyda phlant BI 1 i 6.
- Blwyddyn 3 i 6 wedi cymryd rhan yn Orymdaith Dydd Gŵyl Dewi yn Ninbych. Pawb yn dod i'r ysgol yn gwisgo dillad Cymreig neu goch.
- Dathlu Diwrnod y Llyfr, gyda phlant/staff yn gwisgo fel cymeriadau o'i hoff lyfrau.
- Cyfle i sawl plentyn gystadlu yn Eisteddfod Cylch Dinbych - unigolion, Parti Llefaru, Grwpiau Ymgom a Chôr yr ysgol. Criw o blant hefyd wedi cystadlu yn Eisteddfod Offerynnol a Dawns.
- Johny Baxter a Catrin Henderson o DMC wedi dod draw at blant Blwyddyn 3 a 4 i gynnal sesiwn drymiau Samba, sesiwn ganu, glocensbiel a recorders.
- BI 5 a 6 wedi derbyn hyfforddiant Rygbi taclo gan Aron. Swyddog Rygbi Dinbych
- BI 5 a 6 wedi cael cyflwyniad am gyflwr Awtistiaeth gan Gethin Siôn.
- Wedi cynnal noson dathlu llwyddiannau'r plant gymerodd rhan yn yr eisteddfod i'r gymuned.
- BI 5 a 6 wedi cael mynd i blannu Coeden dderw a photel amser ar ffarm John Tan Waen.
- Sawl plentyn wedi cael y cyfle i gystadlu gyda Chelf a chreffft yr Urdd.
- Aled ac Eleri Watkins o gwmni 'Aloud' wedi dod mewn i ddysgu caneuon gyda phlant BI 5 a 6 rhan o brosiect trosglwyddo gydag Ysgol Glan Clwyd.

- Mrs Glynwen Davies o Ysgol Glan Clwyd wedi dod draw i gynnal gwaith pontio gyda Bl 5 a 6.
- Mr Dewi Owen a Mrs Carys Bryan dod draw i sgwrsio gyda phlant Bl 6.
- Plant Bl 3 - 6 wedi mynd i weld Sioe Gymraeg 'Jemima' ym Mhafiliwn Rhyl.
- Plant Bl 3 - 6 wedi creu fideo yn hybu llyfr 'Cymru ar y map'. Yn sgil hynny cawson fynd ar daith i Aberystwyth i gael gweithdy gydag Awdur Meilyr Siôn, dylunydd llyfr Elin Vaughan Crowley a chael gweld perfformiadau Ysgolion eraill.
- Ymweliad gan Fancesca Sciarriello enillydd Dysgwyr Cymraeg y Flwyddyn yn nodi sut bu iddi hi ddysgu Cymraeg, cyflwyniad i holl blant yr ysgol.
- Cwmni Gwyddoniaeth Xplore yn ymweld â Bl 3 a 4, gwaith Addysg Grefyddol drwy wyddoniaeth.
- Sgwrs a gweithdy gan Ymddiriedolaeth Gwiwerod Coch Clocaenog i blant CA2.
- Roland Jones o Lyfrgell Dinbych wedi bod draw i gyflwyno Sialens Darllen yr Haf i blant yr ysgol.
- Plant Meithrin a Chylch wedi mynd i Wyl Mudiad Meithrin yn Ysgol y Llys.
- Llysgenhadon Chwaraeon wedi trefnu cystadleuaeth 'Wimbeldon' Pant Pastynog i blant Bl 5 a 6.

Activities - Remember to follow **@pantpastynog** on twitter to see photos that are added daily, or you can visit our new website <https://www.ysgolpantpastynog.cymru>

Here are some of the activities that have taken place over the year:-

- *PC Llinos came every term to give a talk to our pupils.*
- *Nursery and Reception Visits – Emyr Evans/Denbigh Library, Cyw Christmas Show, Bodafon Farm, a trip to Gwaenynog to learn about Beatrix Potter, a trip to Tan Waen to see Dot the sheep dog and to see Jack and his pigs. Watching a film at Twm o'r Nant Theatre and an end of year trip to Blue Planet Aquarium.*
- *Year 1 and 2 visits – Ffynnon Dyfnog, Bodafon Farm, see a screening of a special episode of the program Deian a Loli and a film at Twm o'r Nant Theatre. Been part of the Martin Geraint Jamboree at Ysgol Bryn Hyfryd and an end of year trip to Blue Planet Aquarium.*
- *KS2 Visits- Visit Denbigh, Denbigh Castle and Denbigh Library, see Clwyd Theatre's Robin Hood Pantomine. Watch the Mabinogi Show by Mewn Cymeriad drama company, at Denbigh Castle. Visit the Brenig visitor center and the Alwen water treatment plant works. A visit to Dangerpoint, learning the importance of personal safety.*
- *Balance Bike Training - Nursery, Reception and Year 1 class by Aled and Ffion from Active Communities.*
- *Cycling Training for Year 6 - Level 1 and 2 led by Aled and Ffion from Active Communities.*
- *Cricket training for Reception class to Year 6 with Sam Painter from North Wales Cricket.*
- *Gymnastics lessons for pupils from Year 1 to 6 with Tasmin Jones from Denbigh and Ruthin Gymnastics Club.*
- *Chris Kameen, a member of the local community, coming in to work with children of all ages to develop their gardening skills.*
- *Monthly services led by Reverend Martin Pritchard and Andras Iago and termly services led by Mr Neil Roberts, our Bishop Visitor.*
- *The 'Agor y Llyfr' group has restarted, giving pupils at the school the opportunity to participate in performing stories from the Bible for the rest of the school's children.*
- *First Aid service and workshop by St John's Ambulance for KS2 and Yr 1 and 2 pupils.*

- *Casi Wyn, Wales children's Poet came in to compose a poem about the Local Area with KS2 pupils.*
- *Leah Owen came in to talk to Year 3 and 4 pupils, part of the Local Area theme.*
- *A number of Year 4, 5 and 6 pupils competed in the Urdd COGURDD Competition.*
- *Llio from the Urdd came in to do Sports Session with Nursery, Reception, Years 1, 2, 3 and 4 class.*
- *Catrin from Dŵr Cymru came to hold a School service and workshop with KS2 pupils.*
- *Thanksgiving Service was held at St Dyfnog Church, Llanrhaeadr and our Christmas Concert was held at the school with parents present, this was the first time since the Covid pandemic.*
- *School children taking part in the Urdd Jamboree - part of the 'Red Wall' to support the Welsh football team.*
- *Holding a coffee morning for the community, with Year 5 and 6 pupils arranging activities for the younger children at the school. Managed to raise £340 for 'Children in Need' charity.*
- *Miri Acorns - Picking Acorns at John Tan Waen's farm. The Eco Committee created a video of the event and won the 'The digital acorn' award. Won £150 towards the school and collected 42kg of acorns which was worth £172.*
- *Our Sports Ambassadors and Ffion from Active Communities organized Ysgol Pant Pastynog World Cup football competition for KS2 pupils.*
- *Services were led by children from the various school's committees over the year.*
- *Health and Wellbeing Service led by Matt Reid from North Wales Crusaders Rugby Club.*
- *Quiz 'Dim Clem' by Menter Iaith Denbighshire, for Year 6 pupils.*
- *Xplore science Company offering a Stardome and Space activity for pupils from Year 1 to 6.*
- *TTRockstars Mathematics Competition (Tables) within the school, for Year 5 and 6 pupils.*
- *Year 5 and 6 pupils had a residential stay for three days at Llangrannog Urdd Camp.*
- *Year 3 and 4 pupils stayed at Glanllyn Urdd Camp for two days and one night.*
- *A scientific workshop by the Technocamps Lego Robotics company for pupils from Year 1 to 6.*
- *Celebrating Welsh Music Day – Our Welsh Charter members arranged to borrow Headphones from Urdd Denbigh in order to hold a Silent Disco in the school hall.*
- *Jane Jones the County Nutrition Officer, came along to hold healthy eating activities with pupils from Years 1 to 6.*
- *Years 3 to 6 took part in the St David's Day Parade in Denbigh. Everyone came to school wearing traditional Welsh or red clothes.*
- *Celebrating World Book Day, with children/staff dressing up as characters from their favorite books.*
- *An opportunity for several children to compete in the Denbigh District Eisteddfod - individuals, Reciting Party, Theatrical performance groups and the school's Choir. A group of children also competed in the Instrumental and Dance Eisteddfod.*
- *Johny Baxter and Catrin Henderson from DMC have come over to hold a Samba drums session, Singing session, clockensbiel session and recorders sessions with Year 3 and 4 pupils.*
- *Year 5 and 6 pupils received Rugby tackling training from Aron, the Denbigh Rugby Officer.*
- *Year 5 and 6 pupils saw a presentation about Autism by Gethin Siôn.*
- *The children held an evening celebrating their success at the Eisteddfod for the community.*
- *Year 5 and 6 pupils got to go and plant an Oak tree and a time bottle on John Tan Waen's farm.*
- *Several children had the opportunity to compete with Urdd Arts and Crafts competition.*
- *Aled and Eleri Watkins from 'Aloud' company, came in to teach songs with Year 5 and 6 pupils as part of the transition project with Ysgol Glan Clwyd.*

- Mrs Glynwen Davies from Ysgol Glan Clwyd came over to carry out transition work with Yr 5 and 6.
- Mr Dewi Owen and Mrs Carys Bryan come over to chat with the Year 6 pupils.
- Year 3 - 6 pupils went to see the 'Jemima' a Welsh Show at Rhyl Pavilion.
- Year 3 - 6 pupils created a video promoting the book 'Wales on the map'. As a result, they were invited to Aberystwyth to take part in a workshop with Author Meilyr Siôn, book designer Elin Vaughan Crowley and to see other Schools' performances.
- A visit from Fancesca Sciarrillo winner of Welsh Learners of the Year stating how she learned Welsh. This was a presentation to all the children at school.
- Xplore Science Company visiting Year 3 and 4 pupils - Religious Education work through Science.
- A talk and workshop by the Clocaenog Red Squirrel Trust for KS2 pupils.
- Roland Jones from Denbigh Library came to present the Summer Reading Challenge to our pupils.
- 'Nursery and Cylch' pupils went to the Mudiad Meithrin Festival at Ysgol y Llys.
- Our Sports Ambassadors organized a 'Wimbeldon' competition for Year 5 and 6 pupils.

Cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd – Competing in the Urdd Eisteddfod

Bu sawl plentyn gystadlu yn yr Eisteddfod eleni. Cafodd y plant gyfle i fod yn rhan o Barti llefaru, grwpiau Ymgom a Chôr yr ysgol. Llwyddodd sawl unigolyn i gyrraedd Eisteddfod y Sir a daeth grŵp Ymgom Mared yn ail yn Sir Ddinbych. Roedd criw o blant hefyd wedi cystadlu yn yr Eisteddfod Offerynnol, gyda grŵp lola yn dod yn ail gyda grŵp gitâr, a Guto yn drydydd gyda drymiau. Roedd 24 o blant wedi cystadlu yng nghystadleuaeth CogUrdd gyda Elsa yn cynrychioli'r ysgol yn y rownd Sirol. Yn ogystal, bu i nifer o blant gystadlu gyda Chelf a Chrefft yr Urdd, gydag Guto yn llwyddo i ddod yn gyntaf drwy Gymru gyda gwaith Celf a Chrefft!

Several children competed in the Eisteddfod this year. The children had the opportunity to be part of the school's Reciting Party, Theatrical performance groups and Choir. Several individuals managed to reach the County Eisteddfod and Mared'z group came second in the County Eisteddfod. A group of children had also competed in the Instrumental Eisteddfod, with lola's group coming second with their guitar group, and Guto third with drums. 24 children had competed in the CogUrdd competition with Elsa representing the school in the County round. In addition, a number of children competed with the Urdd's Art and Craft competition, with Guto succeeding in coming first throughout Wales with his Art and Craft work!

Adeiladau – Cynnal a Chadw / Buildings – Maintenance

Yn ystod y flwyddyn gwnaed y gwelliannau canlynol:

- Ffens newydd o flaen dosbarth Meithrin a Derbyn.
- Cysgodfa newydd i greu dosbarth tu allan pwrpasol i'r Cylch ac i ddosbarth Meithrin a Derbyn.
- Torri coeden Onnen oedd yn marw uwchben y garej ar y buarth.
- Gosod ffôb ar y prif ddrws, drysau Bl 1 a 2 a Bl 3 a 4.
- Creu cynlluniau ar gyfer mynedfa newydd i'r ysgol.

The following improvements were made during the year:

- New fence outside the Nursery and Reception class.
- A new shelter to create a dedicated outdoor classroom for the Cylch and Nursery and Reception

class.

- *Cut down an Ash tree which was dying, near the garage on the yard.*
- *Place fobs on the school's main door, Year 1 and 2 class and Year 3 and 4 class doors.*
- *Create plans for a new entrance for the school.*

Cymdeithas Rhieni ac Athrawon – Parents and Teachers Association

Rydym yn hynod o ddiolchgar i bwyllgor Gymdeithas Rhieni ac Athrawon yr Ysgol am ei gwaith caled i godi arian ar gyfer y plant. Buom yn ffodus iawn eleni iddynt gyfrannu'n haul iawn tuag gostau sawl ymweliad a rhoi ychydig o arian i bob dosbarth wario ar adnoddau.

Gweler isod y gweithgareddau a gynhaliwyd eleni:-

- Ffair Nadolig llwyddiannus.
- Noson paned a chacen i ddathlu llwyddiannau plant fu'n cystadlu yn yr Eisteddfod.
- Barbeciw Haf, ym mis Gorffennaf er mwyn dod a'r gymdeithas gyfagos at ei gilydd.

We are extremely grateful to our School's Parent and Teacher Association committee for their hard work to raise funds for the children. We were very fortunate this year that they contributed generously towards the costs of several visits and gave each class some money to spend on resources.

See below the activities that took place this year:-

- *A successful Christmas Fair.*
- *A night of tea/coffee and cake to celebrate the achievements of those children who competed in the Eisteddfod.*
- *Our Summer BBQ, in July, which brings the local community together.*

Cysylltiadau â'r Gymuned – Links with the Community

Mae bod yn rhan o'r gymuned yn bwysig iawn i ni fel ysgol. Mae dosbarthiadau Cyfnod Sylfaen wedi mwynhau cael defnyddio gardd Y Ficerdy, Prion i gynnal gwersi tu allan a chael picnic tedi. Mae sawl aelod o'r gymuned wedi bod mewn i'r ysgol yn helpu gyda'r plant, boed gyda gwaith Celf a chreffft, cynnal gweithgareddau Pasg, garddio a hefyd dod i mewn i wrando ar rhai o'r plant yn darllen.

Rydym wedi bod yn rhan eto eleni o orymdaith Dydd Gŵyl Dewi yn Ninbych ac yn ymfalchio o weld ein plant yn dangos balchder tuag at eu diwylliant. Rydym wedi gwneud defnydd o Eglwys Llanrhaeadr ar gyfer cynnal ein Gwasanaeth Diolchgarwch. Mae Cylch Meithrin a Chlwb Sêr yn parhau yn glybiau gwerthfawr dros ben i gymuned yr ysgol a'r gymuned leol. Hefyd mae 'Ti a fi' yn cael ei gynnal bob bore Gwener rhwng 10 a 11:30 yn y Caban, sy'n gyfle eto i ddarpar rieni ddod draw am baned a sgwrs ac i gael blas ac ymdeimlad o'r ysgol.

Mae gennym gyswllt agos gyda'r Eglwys wrth i Barchedig Martin Pritchard a Barchedig Andras Iago gynnal gwasanaethau yn rheolaidd, Mr Neil Roberts gynnal gwasanaethau yn dymhorol a chriw 'Agor y Llyfr' ddod draw bob hanner tymor.

Eleni, rydym wedi ail-sefydlu cylchlythyr sy'n cael ei rannu i drigolion yr ardal er mwyn sicrhau fod pawb yn ymwybodol o'r hyn sydd yn mynd ymlaen yn yr ysgol.

Being part of the community is very important to us as a school. Foundation Phase classes have enjoyed being able to use the garden of the Vicarage, Prion to hold outside lessons and have a teddy bear picnic. Several members of the community have been in the school helping with the children, whether with Art and craft work, running Easter activities, gardening and also listening to some of the children read.

We have been part of the St David's Day parade in Denbigh again this year and are proud to see our children showing pride in their culture. We have made use of Llanrhaeadr Church for holding our Thanksgiving Service. Cylch Meithrin and Clwb Sêr continue to be extremely valuable clubs for the school community and the local community. Also 'Ti a fi' is held every Friday morning between 10 and 11:30 in the Cabin, which is another opportunity for prospective parents to come over for a cup of tea and a chat and to get a taste and feel of the school.

We have a close links with the Church as Reverend Martin Pritchard and Reverend Andras Iago hold services regularly, Mr Neil Roberts holds services termly and the 'Agor y Llyfr' group come every half term.

This year, we have re-established a newsletter which is shared with the residents of the area to ensure that everyone is aware of what is going on at the school.

Darpariaeth ar gyfer plant ag Anableddau neu Anghenion Dysgu Ychwanegol /

Provision for children with Disabilities or Additional Educational Needs

Nod yr ysgol ydi datblygu pob disgybl hyd at eithaf ei allu ac mae darpariaeth ar gael i gynorthwyo'r disgyblion i wneud hynny. Mae Mrs Jan Roberts wedi bod yn dod i mewn i wneud gwaith cefnogi yn wythnosol, ac rydym hefyd yn cyflogi dwy gymhorthydd i wneud gwaith targedu.

Nodir ym mholisi ADY yr ysgol y drefn o adnabod, asesu a darparu ar gyfer disgyblion ag ADY. Y Pennaeth a Senco'r Clwstwr sef Manon Tudur sy'n gyfrifol am gydlynw'r ddarpariaeth briodol ac mae aelod o'r Corff Llywodraethol hefyd wedi'i dewis i fonitro'r polisi.

Cynhelir cyfarfodydd Cynllunio gyda'r Awdurdod Addysg yn ystod y flwyddyn er mwyn sicrhau'r ddarpariaeth orau i'n plant. Mae hyn yn cynnwys cyfarfodydd efo'r Seicolegydd Addysg, y Gwasanaeth Cefnogi Ymddygiad, Iaith a Lleferydd ac asiantaethau arbenigol eraill. Yn ogystal â hyn, mae ysgolion Clwstwr Glan Clwyd yn cwrdd yn rheolaidd i drafod materion ADY.

Yn ystod y flwyddyn, buddsoddwyd mewn hyfforddiant i staff ac adnoddau er mwyn i ni allu ymateb i anghenion ein dysgwyr – 'Wordshark' a 'Darllen.co' i gefnogi gyda Llythrennedd. Bu i gymhorthydd gwblhau cwrs ELSA, ac Athrawes gwblhau cwrs 'Tyfu trwy'r tymhorau' eleni.

The aim of the school is to develop each pupil to the best of his/her ability and provision is in place to enable the pupils to do this. This year, arrangements were made for a teacher to support Language and another to support Number on a weekly basis. Mrs Jan Roberts has been coming in weekly to further support the pupils, and we also employ two assistants to do targeting work.

It states in the ALN policy of the school the processes used to recognise, assess and put in place support for ALN pupils. The Headteacher and our Cluster ALNCO Manon Tudur, is responsible for co-ordinating suitable provision and a member of the Governing body has been nominated to monitor the policy.

Planning meetings are held with the Education Authority during the year to ensure the best provision for

our children. This includes meetings with the Educational Psychologist, the Behaviour, Language and Speech Support Service and other specialist agencies. In addition to this, Glan Clwyd Cluster schools meet regularly to discuss ALN issues.

During the year, we invested in training and resources so that we could respond to the needs of our learners - 'Wordshark' and 'Darllen.co' to support with Literacy. Also, a Teaching assistant completed the ELSA course, and a Teacher completed the 'Season for growth' course this year.

POLISIÄU'R YSGOL / SCHOOL POLICIES

Cafodd nifer o bolisiau cwricwlaidd a rheolaethol eu hadolygu yn ystod y flwyddyn ac mae copïau ohonynt ar gael yn yr ysgol.

A number of curricular and management policies were reviewed – copies of which are available on request.

YMDRIN Â CHWYNION / DEALING WITH COMPLAINTS

Mae gan yr ysgol ethos agored cyfeillgar ac mae croeso i chi drefnu i weld y Pennaeth i drafod unrhyw bryder. Pan fo angen codi cwyn am agwedd o waith yr ysgol, dylid cysylltu Athrawes dosbarth, yna'r Pennaeth, ac os na chewch eich bodloni, cysylltwch â Chadeirydd y Corff Llywodraethol. Os yw'r mater dal heb ei datrys cysylltwch â'r Adran Addysg yn y Cyngor Sir.

The school has an open and friendly ethos and you are welcome to arrange to meet the Head teacher to discuss any concerns. If you have a complaint about any aspect of school work, the first point of contact should be your child's class teacher, then the Head teacher, and if you are not satisfied, you should contact the Chair of Governors and then, if the matter is unresolved, the Local Authority.

Diolch yn fawr / Thank you.